CYFRES C7

# amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Enw




DARLLENWCH
1 Samuel 18: 1-23
19: 1-18



ADNODAU
ALLWEDDOL
Hebreaid 13: 5 a 6

## Astudiaeth 3 Bywyd Dafydd – Wynebu Problemau



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Salm 139: 7-12 Salm 140: 1-8 Rhufeiniaid 12: 17-21

Ar ôl buddugoliaeth Dafydd dros Goliath, roedd Saul yn meddwl y byd ohono. Cafodd fynd i gartref y Brenin a daeth yn ffrindiau mawr â'i fab.

**C Enw ffrind Dafydd.** 1

**C Beth wnaeth mab Saul i ddangos bod eu cyfeillgarwch yn mynd i bara?** 1

Cafodd Dafydd lwyddiant mawr fel milwr a chafodd swydd bwysig gan y Brenin. Ond, un tro, pan ddaeth Dafydd yn ôl o frwydr, dechreuodd gwragedd Israel ei ganmol ef yn fwy na Saul.

**C Beth ddywedon nhw?** 1

**C Gwnaeth hyn Saul yn flin iawn. Beth oedd arno ef ofn y byddai'n digwydd nesaf?** 1

Mae balchder a chenfigen yn ddau bechod cas y mae'n rhaid i ni eu hosgoi. Mae'r stori hon yn dangos bod pechodau fel hyn yn arwain at bechodau gwaeth.

1

**C Beth geisiodd Saul ei wneud i Dafydd wedyn? (Pennod 18: 10 ac 11)**

Ddywaith yn adnodau 10-16, gwelwn ymadrodd sy'n dangos pam yr oedd Dafydd yn llwyddo ac yn cael ei warchod mewn brwydrau a pham yr oedd ar Saul ei ofn.

Adnodau ac 2

**C Ysgrifennwch yr ymadrodd a rhifau'r adnodau lle mae'n digwydd.**



Roedd Duw yn anrhydeddu ffydd Dafydd ac yn ei gadw'n ddiogel i fod yn frenin ar Israel. Mae pawb sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu yn cael sicrwydd y bydd Duw gyda nhw.

**C Ysgrifennwch addewid Duw o'r Adnodau Allweddol a beth y gallwn ni ei** 2

**ddweud o ganlyniad i hynny.**
Roedd yn ymddangos bod Dafydd yn gorfod goresgyn y naill broblem ar ôl y llall.

## CHWILAIR

**Atebwch y cwestiynau isod a rhoi cylch o'u cwmpas yn y Chwilair i weld beth roedd Saul yn bwriadu ei wneud! (Pennod 18: 17-23). Maent wedi eu cuddio ymlaen, tuag yn ôl, i fyny, i lawr neu'n groeslinol.**

1. Dywedodd Saul wrth Dafydd y câi briodi …………, ei ferch hynaf.
2. I dalu nôl am hynny, roedd disgwyl i Dafydd ymladd ………… y brenin.
3. Ond rhoddodd Saul ei ferch hynaf i ………… .
4. Syrthiodd ei ferch arall, ……………, mewn cariad â Dafydd.
5. Dywedodd y gweision wrth Dafydd bod Saul yn ……… ohono.
6. Ond, mewn gwirionedd, roedd Saul yn gobeithio y byddai'r Philistiaid yn ei …….

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L | A | CH | I | M | (R) | O | E |
| DD | Y | R | E | A | R | G | L |
| A | D | R | I | E | L | CH | W |
| Y | A | DD | G | Y | D | L | A |
| B | R | W | Y | D | R | A | U |
| D | O | A | F | Y | DD | F | |

6

**C** **Gan ddechrau â'r llythyren sydd â chylch o'i chwmpas, symudwch o'r chwith i'r dde lawr y Chwilair a defnyddio'r llythrennau sydd ar ôl i weld pam mai Dafydd oedd yn fuddugol y tro hwn eto.**

1

Wrth i ni ddarllen Pennod 19, gwelwn fod Saul yn DAL i geisio lladd Dafydd! Mae Satan fel Saul – dydi e byth yn rhoi'r gorau iddi! Mae bob amser yn ceisio'n temtio ni gyda phethau fel alcohol, cyffuriau ac anfoesoldeb. Mae'n ceisio gwneud ein bywydau ni yn anodd ac yn anhapus, yn enwedig os ydym yn Gristnogion. Ni thalodd Dafydd ddrwg am ddrwg!

**C** **O beth ddywedodd Jonathan wrth ei dad o blaid Dafydd (Pennod 19: 4 a 5), disgrifiwch sut y bu Dafydd yn ffyddlon i'r brenin.**

1

Er gwaethaf addewid Saul i Jonathan (adnod 6), mae'n ceisio trywanu Dafydd â'i waywffon.

**C** **Dywedwch yn eich geiriau eich hunan sut yr helpodd gwraig Dafydd ef i ddianc.**

3

Efallai nad ydi'n bywydau ni dan fygythiad trwy'r amser fel yr oedd Dafydd ond mae pawb ohonom yn wynebu anawsterau a phroblemau. Roedd ffydd Dafydd yn Nuw yn ei helpu i ddal ati. Os byddwn ni'n ffrindiau â Iesu, bydd ei gwmni ef yn ein helpu i wynebu problemau bywyd.

cyfanswm